

Cyngor Cymuned Rhaglan

Gwrthwynebiad

i Adolygiad 2026 Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru o Etholaethau'r Senedd.

Diben yr ymateb hwn yw gwrthwynebu i gynigion Ymgynghoriad Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC) yn ymwneud ag Adolygiad 2026 o Etholaethau'r Senedd (Cynigion diwygiedig dyddiedig Rhagfyr 2024).

Yn y Cynnig Diwygiedig, dyddiedig Rhagfyr 2024, mae pennod 7 yn gwneud cais bod yr holl sylwadau ysgrifenedig yn ei gwneud yn eglur pa ardaloedd o Gymru y maent yn ymwneud â nhw; mae'r ymateb hwn yn ymwneud â Sir Fynwy. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell bod unigolion, grwpiau neu sefydliadau yn cyflwyno sylwadau ysgrifenedig yn gwrthwynebu cynigion y Comisiwn, ac y dylai'r sylwadau hynny gynnig gwrthgynigion. Mae Cyngor Cymuned Rhaglan wedi datgan ei wrthwynebiadau a'i wrthgynigion i'w hystyried.

Mae gwrthwynebiad Cyngor Cymuned Rhaglan i'r cynnig yn seiliedig ar lawer o resymau sy'n gysylltiedig â ffactorau statudol, cyni cyllidol, a goblygiadau ariannol gweithredu'r newidiadau.

1. Cysylltiadau Lleol:

Mae CDFfC o'r farn bod ffiniau presennol wedi cael eu creu gan gydnabod cysylltiadau lleol. Fodd bynnag, nid yw Cyngor Cymuned Rhaglan o'r farn bod y newidiadau arfaethedig yn debygol o adlewyrchu cysylltiadau lleol, a fydd yn cael eu cyfleu yn fwy eglur isod.

1.1. Cysylltiadau Ffordd a

Thrafnidiaeth:

Gwrthwynebiad

Yn yr adroddiad ymgynghori, mae CDFfC wedi dweud ei fod o'r farn bod paru Sir Fynwy a Thorfaen yn briodol oherwydd y cysylltiadau trafndiaeth a chyfathrebu da yn yr etholaeth arfaethedig. Mae'r Comisiwn o'r farn felly bod y cyfuniad arfaethedig yn creu etholaeth gydlynol. Er bod cysylltiadau ffyrdd da ar draws Sir Fynwy a Thorfaen, mae hyn yn aml oherwydd y ffaith fod y ffyrdd yn ffyrdd prifwythiennol sy'n cysylltu llawer o etholaethau ar draws de Cymru; yn syml, nid yw'r rhain yn unigryw i'r ddwy etholaeth hyn.

Hefyd, nid yw'n eglur sut mae 'da' wedi cael ei ddiffinio gan y Comisiwn, ond dylid ystyried yr amserlenni trafndiaeth gyhoeddus gan nad yw'r cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus a chyfathrebu cystal ag y mae CDFfC wedi ei ddynodi. Er enghraifft, nid yw cysylltu'r Fenni (tref fwyaf Sir Fynwy) a Chwmbwrân (tref fwyaf Torfaen) trwy fws yn bosibl

ar hyn o bryd trwy lwybr uniongyrchol. Mae taith sy'n para tua 32 munud amcangyfrifedig yn y car yn para tua 1 awr ar fws, gan newid ym Mhont-y-pŵl. Hefyd, byddai fwy neu lai'n amhosibl i drigolion sy'n dymuno teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus at ddibenion gwaith rhwng Trefynwy a Chwmbwrn. Mae trafnidiaeth gyhoeddus ar gael bob tair awr yn unig, ac mae'r ymadawiad cynharaf am 08:04 yn y bore, a'r ymadawiad olaf o Drefynwy am 20:33 ac yn cymryd cyfartaledd o 2 awr 6 munud y daith. Yn olaf, bydd yn rhaid i drigolion sy'n teithio o Gil-y-coed i Bont-y-pŵl newid sawl gwaith, sy'n arwain at daith sy'n para dros 2 awr. O'r ychydig enghreifftiau hyn, mae'n eglur nad oes cysylltiadau trafnidiaeth da rhwng y ddwy etholaeth bresennol.

1.2. Cysylltiadau ffordd a

thrafnidiaeth:

Gwrthgynnig

Pe bai'r etholaeth newydd yn cael ei ffurfio, dylai'r Comisiwn weithio gydag awdurdodau perthnasol gan gynnwys (Llywodraeth Cymru/y Senedd) i sicrhau bod cysylltiadau trafnidiaeth a chyfathrebu da ar draws yr etholaeth, gan sicrhau y gall etholwyr deithio'n effeithiol ac yn ddarbodus ar draws yr ardal.

2. Enwi Ffiniau:

Derbyniodd y Comisiwn 29 o sylwadau ar y cynnig cychwynnol i baru Sir Fynwy a Thorfaen; roedd 16 o blaid a 13 yn erbyn. Ymhlith y sylwadau a oedd yn gwrthwynebu, cynigiodd 11 drefniadau amgen gan gynnwys paru Sir Fynwy gyda Brycheiniog, Maesyfed a Chwmtawe a pharu Torfaen gyda Blaenau Gwent.

2.1. Enwi ffiniau a defnyddio dwyieithrwydd:

Gwrthwynebiad

Yn rhan o hyn, roedd 14 o sylwadau ar y cynnig cychwynnol i enwi'r etholaeth hon yn Sir Fynwy a Thorfaen. O'r 14 o sylwadau, roedd 12 yn erbyn. Bydd yr holl enwau amgen a awgrymwyd, gan gynnwys Mynwy Torfaen, yn arwain i Sir Fynwy golli ei hunaniaeth yn y Saesneg.

Byddai'n ymddangos bod y Comisiwn wedi newid y "Ddeddf" ar gyfer sut y bydd etholaethau yn cael eu henwi rhwng adolygiadau Medi a Rhagfyr. Ym mis Medi, nodwyd bod yn rhaid i bob etholaeth fod ag un enw uniaith (Pwynt 10 yr Adolygiad). Mae adolygiad Rhagfyr 2024 bellach yn cynnwys Pennod 3 sydd wedi'i neilltuo ar gyfer enwi a dynodi etholaethau. Fodd bynnag, yr hyn nad yw'n eglur yn y Cynigion Diwygiedig yw pam mae'r newid hwn wedi cael ei wneud.

Mae newid enw'r etholaeth arfaethedig i *Mynwy Torfaen*, o *Sir Fynwy a Thorfaen*/

Monmouthshire and Torfaen, yn golygu bod Sir Fynwy yn colli ei hunaniaeth yn llwyr. Trwy droi etholaethau newydd fel Sir Fynwy a Thorfaen yn hybrid o'r Gymraeg a'r Saesneg, mae hunaniaethau newydd yn cael eu creu, ac yn yr enghraifft hon, mae Sir Fynwy yn colli ei hunigoliaeth a'i hunaniaeth hanesyddol.

Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno ag orgraff yr enw arfaethedig *Sir Fynwy a Thorfaen/Monmouthshire and Torfaen*. Mae'n anodd gweld pam mae CDFfC bellach wedi cynnig *Mynwy Torfaen*, sy'n gymysgedd o'r Gymraeg a'r Saesneg, ac nid yn un o'r enwau amgen a gynigiwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyntaf. Bydd enwi ardal yr etholaeth newydd yn *Mynwy Torfaen* yn arwain at ddryswch yn enwedig gan fod Mynwy yn gyfieithiad o *Monmouth* ac nid *Monmouthshire*. Sir Fynwy yw'r cyfieithiad o *Monmouthshire*, a fyddai'n gynrychiolaeth fwy priodol o'r etholaeth.

I amlygu pa mor amhriodol yw enwi'r etholaeth yn *Mynwy Torfaen*, gellid ystyried cyfansoddiad daearyddol yr ardal ymhellach. Nid Trefynwy yw'r dref fwyaf yn yr ardal, ond y Fenni; Trefynwy yw'r drydedd dref fwyaf yn Sir Fynwy (heb gynnwys Torfaen).

Hefyd, Saesneg yw prif iaith Sir Fynwy, ac mae llai na 10% o drigolion yn Sir Fynwy yn siaradwyr Cymraeg. Er bod Sir Fynwy wedi cynnal Eisteddfod(au) yn y blynyddoedd diwethaf, ac wedi ymgorffori cynlluniau strategol i gynnal y Gymraeg mewn ysgolion ac ati, mae dal i fod angen i bobl Sir Fynwy gynnal eu treftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol, a chael eu parchu o ran eu dymuniadau ieithyddol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod hunaniaeth Saesneg Sir Fynwy yn cael ei chynnal a'i pharchu, tra hefyd yn cefnogi twf a chynaliadwyedd y Gymraeg. Mae cydbwyso'r anghenion hyn yn hanfodol i feithrin cymuned sy'n anrhydeddu ei gwreiddiau hanesyddol ac yn croesawu ei dyfodol dwyieithog.

2.2. Cysylltiadau hanesyddol Sir Fynwy:

Gwrthwynebiad

Yn ogystal â'r uchod, ceir natur hanesyddol i'r enw *Monmouthshire*. O Ddeddf Uno 1543, mae *Monmouthshire* wedi cael ei enwi yn y llyfrau hanes, mewn Deddfau gan Senedd y Deyrnas Unedig, ac fe'i henwyd ar ôl y dref, *Monmouth*, wedi'i lleoli wrth gydlifiad afonydd Mynwy a Gwy. Cafwyd dadleuon ynghylch statws Sir Fynwy dros y canrifoedd, ac ystyriwyd ei bod yn rhan o Loegr am gryn amser. Eglurwyd yn Neddf Llywodraeth Leol 1972 ei bod yn sir yng Nghymru, ar y ffin â Lloegr.

Hyd heddiw, mae cymudwyr, ymwelwyr a thwristiaid sy'n teithio i dde a gorllewin Cymru ar y prif gysylltiadau ffordd (e.e. M4, M50 ac A40) yn dod i mewn i Gymru drwy Sir Fynwy, gan deithio'n aml trwy dref Sir Fynwy wedi'i lleoli ar yr A40. Byddai rhoi terfyn ar yr enw Sir Fynwy ar gyfer Mynwy Torfaen yn newid hunaniaeth hanesyddol a diwylliannol Sir Fynwy yn sylweddol, gan greu'r perygl o darfu ar y gymuned a chysylltiadau â hanes. Mae ystyriaethau ymarferol yn ofynnol

hefyd; os bydd ymwelwyr a thwristiaid yn gweld arwydd yn labelu'r ffin fel Mynwy Torfaen, efallai y byddai cymhlethdodau iaith, a dryswch daearyddol yn cael eu hachosi. Torfaen yn air mwy cyfarwydd i siaradwyr Saesneg, ac felly, gallai achosi dryswch wrth edrych ar fap a sylwi nad yw Torfaen ar y ffin gyda Lloegr.

2.3. Cysylltu'r newidiadau arfaethedig i'r etholaeth yn gyfochrog ag Etholaethau Seneddol y DU:

Gwrthwynebiad

Mae Cyngor Cymuned Rhaglan yn deall y bydd Adolygiad 2026 yn ystyried Etholaethau Seneddol y DU yn unig, sef yr etholaethau a fydd yn weithredol o Etholiad Cyffredinol 2024.

Yn ystod Adolygiad 2023 o Etholaethau Seneddol y DU, newidiodd etholaeth Trefynwy i Sir Fynwy, gan ymgorffori 11% o Dorfaen. Mae ffin *Sir Fynwy [Cymraeg]/ Monmouthshire [Saesneg]* fel Etholaeth Seneddol y DU yn mapio'r un amlinelliad ag y mae CDFfC yn ei gynnig. Yn ystod Adolygiad 2023 o Etholaethau Seneddol y DU, newidiodd etholaeth Trefynwy i Sir Fynwy, gan symud 11% o'r anheddau preswyl o etholaeth Trefynwy i Dorfaen (ffurfiodd 89% o etholaeth Trefynwy etholaeth Sir Fynwy). Mae ffin Sir Fynwy [Cymraeg]/ *Monmouthshire [Saesneg]* fel Etholaeth Seneddol y DU yn mapio'r un amlinelliad â'r hyn y mae CDFfC yn ei gynnig, gan ychwanegu Torfaen. Pe bai'r Cynnig Diwygiedig yn cael ei dderbyn, a'r etholaeth newydd yn cael ei ffurfio, mae'r rhesymeg pam y gallai'r ddwy etholaeth fod wedi cael eu huno i greu etholaeth newydd yn gyfyngedig, pan nodir gwahaniaeth eglur rhwng y ddwy ardal yn ystod adolygiad Seneddol y DU. Gallai'r uno hwn arwain at ddryswch ymhlith etholwyr ac o bosibl gwanhau cynrychiolaeth gwahanol gymunedau. Mae'n hanfodol cynnal ffiniau eglur a rhesymegol i sicrhau llywodraethu a chynrychiolaeth effeithiol.

1.1. Enwi ffiniau:

Gwrthgynnig

Mae Cyngor Cymuned Rhaglan yn cynnig, yn unol ag Etholaeth Seneddol y DU, bod yr etholaeth newydd o dan adolygiad CDFfC yn cael ei enwi yn *Sir Fynwy/ Monmouthshire*. Os bydd angen cynnwys Torfaen, byddai angen rhesymeg a *Sir Fynwy / Torfaen / Monmouthshire / Torfaen* ddylai'r enw fod.

2. Ychwanegol:

Gwrthwynebiad

Yn ogystal â'r uchod ac ochr yn ochr â'r ffactorai statudol, mae Cyngor Cymuned Rhaglan yn gwrthwynebu i'r Cynigion Diwygiedig am resymau ychwanegol gan gynnwys cyni cyllidol a goblygiadau ariannol y newidiadau.

3.1. Cyni cyllidol:

Gwrthwynebiadau

Adroddodd CDFfC ei fod wedi derbyn 3,741 o sylwadau yn ystod cyfnod ymgynghori'r cynnig cychwynnol. O'r rheini, roedd 886 yn gyffredinol gefnogol o'r cynigion ac roedd 2,835 yn gyffredinol yn erbyn y cynigion. Mae'n eglur, felly, nad yw'r corff anetholedig yn gwrandao ar safbwyntiau'r holl etholwyr ac ymgynghoreion. O gofio bod yn rhaid gweithredu'r ymgynghoriad fel y nodir yn adroddiad terfynol y Comisiwn, mae aelodau etholedig Cyngor Cymuned Rhaglan **yn gwrthwynebu** i'r argymhellion terfynol sy'n cael eu gwneud gan gorff anetholedig (CDFfC).

Dros y blynyddoedd diwethaf, adroddwyd gan nifer o Weinyddiaethau LIC nad oes gan Gymru'r swm gofynnol o adnoddau gwariant cyhoeddus wedi'i gyfrifo gan fformiwla Barnett. Ni all gwario miliynau ar y cynnydd arfaethedig i nifer yr Aelodau etholedig o'r Senedd fod yn wariant y gellir ei gyfiawnhau o fformiwla Barnett, lle ceir blaenoriaethau uwch ar gyfer gwariant a fydd yn gwella bywydau a llesiant etholwyr/trigolion yn Sir Fynwy a Chymru.

3.2. Ariannu'r adolygiad a gweithrediad:

Mae'r newidiadau i etholaethau'r Senedd yn gost na ellir ei chyfiawnhau i bwrs y wlad, pan fod swyddfeydd Prif Weinidog y DU a Changhellor y Trysorlys a Swyddfa'r Prif Weinidog, wedi datgan bod gan y wlad dwll du o fwy na £22 miliwn. O ystyried y diffyg rhesymeg seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer y newidiadau hyn, ceir dadl y byddai'n well gwario unrhyw arian sy'n cael ei wario ar adolygu'r etholaeth yn well yn Sir Fynwy ac yng Nghymru. Er enghraifft, ar ein gwasanaeth GIG gan fod data brawychus ar gael ar le mae gwahanol wasanaethau iechyd mewn trafferthion;

- Mae Llywodraeth Cymru wedi adrodd bod ychydig dros 801,300 o lwybrau cleifion yn aros am driniaeth ym mis Tachwedd 2024 (yn ôl y ffigurau diweddaraf gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru).
- Mae mwy na 23% o gleifion yn aros mwy na blwyddyn am driniaeth ysbyty yn dilyn atgyfeiriad, o'i gymharu â 3% o gleifion yn Lloegr.
- Pan fydd unedau damweiniau ac achosion brys mawr yn cael eu cymharu â

Lloegr, mae Cymru yn perfformio'n gymharol waeth am yr wythfed mis yn olynol (ym mis Rhagfyr 2024).

- Roedd 10,159 o gleifion yn aros mwy na 12 awr mewn adrannau damweiniau ac achosion brys.

Er bod rhywfaint o gyllid wedi cael ei ryddhau i fynd i'r afael â rhywfaint o'r uchod, nodwyd gan gyrff llywodraethu nad yw hyn yn ddigonol. Os nad yw'r Senedd yn credu mewn gwario arian cyhoeddus ar y cyhoedd, mae angen iddi ystyried gwario unrhyw gyllid perthnasol ar wella seilwaith presennol; amcangyfrifir y bydd yn costio £29.1 miliwn i drwsio ffyrdd yng Nghymru (amcangyfrifwyd o adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2021/22).

3.3. Cyllid dros gyfnod o amser:

Wedi'i gynnwys yn "Goblygiadau Ariannol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)" dywedodd y Gweinidog bod y Bil yn "fuddsoddiad mewn democratiaeth". Ychwanegodd:

"I think it's value for money not only because, overall, it will deliver better governance, better scrutiny, better legislation, better use of all the public resources that the Senedd has and the role of the Welsh Government, but, in the short to medium term, it also becomes something that actually pays for itself. This is legislation that is essentially self-funding and, in actual fact, should result in net benefit over a period of time."

Mae'n anodd gweld "**mae'n werth am arian**" pan fo'r weinyddiaeth hon a gweinyddiaethau blaenorol wedi dweud ers degawdau bod Llywodraeth Cymru/y Senedd wedi'u hariannu'n annigonol o grantiau bloc, y gyllideb ganolog o fformiwla Barnett. Byddai cynyddu nifer yr Aelodau o'r Senedd o 30 yn arwain at gynnydd o gyfanswm o fwy na £10 miliwn y flwyddyn, gan gynnwys costau cynnal. Mae'r gost hon yn codi i £119.6 miliwn dros y cyfnod arfarnu. Pan fo angen i arian etholwyr gael ei gefnogi ym meysydd addysg, iechyd, llesiant, seilwaith a chartrefi newydd i deuluoedd ifanc, ni all aelodau etholedig Cyngor Cymuned Rhaglan weld sut mae Cynlluniad/Senedd Cymru ac etholaethau yn cyfiawnhau'r gost hon. Er bod y cyfiawnhad i fwrw ymlaen â'r newidiadau hyn, sy'n cael effaith gadarnhaol bendant ar yr etholwyr/pleidleiswyr, yn gyfyngedig, mae gwrthwynebiad Cyngor Cymuned Rhaglan yn sefyll.

I gloi, mae Cyngor Cymuned Rhaglan yn gwrthwynebu'n gryf i'r newidiadau arfaethedig i ffiniau'r etholaethau, ac i'r newid enw yn benodol, pe bai'r newidiadau i'r ffiniau yn cael eu gweithredu. Ni all Sir Fynwy golli ei hunaniaeth sydd wedi bodoli ers cannoedd o flynyddoedd. Mae Cyngor Cymuned Rhaglan hefyd yn gwrthwynebu'r gryf i'r cynigion arfaethedig hyn gan yr ystyrir eu bod yn ddiangen pan ellid defnyddio'r arian yn well, ar gyfer llesiant etholwyr ar draws holl ardaloedd Cymru. Mae gwrthgynigion wedi'u hymgorffori yn y gwrthwynebiad hwn, pan fo'n briodol.

Awdur:
Clerc i Gyngor Cymuned Rhaglan



Dyddiad ymateb; Ionawr 2025

YMGYNGOREION:
Aelodau etholedig Cyngor Cymuned Rhaglan. [Ymateb
erbyn 13 Ionawr 2025](#)

i:
CDFfC Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd,
CF10 3NQ
E-bost: enquiries@dbcc.llyw.cymru

Dyma'r dogfennau a ystyriwyd wrth lunio'r ymateb hwn:

[Bil Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\)
\[https://senedd.cymru/media/tkmd2ndw/pri-ld16037-
w.pdf\]\(https://senedd.cymru/media/tkmd2ndw/pri-ld16037-w.pdf\)](#)
[Deddf Senedd Cymru \(Aelodau ac Etholiadau\) 2024
<https://www.legislation.gov.uk/asc/2024/4/welsh>](#)
[Adolygiad 2026 Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru o Etholaethau'r Senedd Medi 2024
\[Argymhellion Rhagarweiniol\]\(#\)](#)
[Cynigion Diwygiedig Adolygiad 2026 Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru o Etholaethau'r
Senedd Rhag 2024 \[Penderfyniadau polisi\]\(#\)](#)
[Porth Ymgynghori \[Adolygiad 2026: Cynigion Cychwynnol | CDFfC\]\(#\)](#)
[Gorchymyn Etholaethau Seneddol 2023 \[Gorchymyn Etholaethau Seneddol 2023\]\(#\)](#)
[Boundary review 2023: Which seats will change in the UK? \[Boundary review 2023: Which
seats will change in the UK?\]\(#\)](#)